Sut i ddefnyddio'r adnodd hwn

Bwriad yr adnodd hwn yw cynnig anogaeth a chefnogaeth i ysgolion Abertawe wrth ddatblygu ym maes ADCDF. Nid cystadleuaeth yw Cynllun Ysgolion Cynaliadwy Abertawe, er y bydd FfAAA yn gallu gwobrwyo ysgolion am eu cynnydd yn y maes.

Daw'r wyth pwnc sy'n cael sylw yn y Cynllun hwn o Arweiniad i Ysgolion ADCDF (FfAAA 2006), ond mae fformat dalennau rhydd y ffolder yn golygu y gellir ychwanegu adrannau eraill a gwybodaeth arall.
Yr wyth pwnc yw:

- **Lles Anifeiliaid**
- **Bioamrywiaeth**
- **Ynni a Dŵr**
- **Bwyd a Ffermio**
- **Dinasyddiaeth Fyd-eang**
- **Tiroedd a'r Adeiladau**
- **Trafnidiaeth**
- **Gwastraff a Sbwriel**

Mae'r camau gweithredu a awgrymir ar gyfer pob pwnc wedi'u trefnu mewn tabl o dan y penawdau **Rheoli'r Ysgol** a **Gweithgareddau'r Cwricwlwm**. Hefyd, ceir rhestr o **Gysylltiadau a Chefnogaeth** allweddol, sy'n lleol neu'n rhanbarthol, ac yna adran **Gwybodaeth ac Adnoddau** sy'n amlygu gwefannau defnyddiol.

Bydd athrawon yn sylwi bod rhai camau gweithredu'n ymddangos o dan fwy nag un pwnc e.e. mae sawl cam gweithredu yn yr adran Bioamrywiaeth yn cael eu hailadrodd o dan Lles Anifeiliaid neu Diroedd ac Adeiladau. Mae hynny'n adlewyrchu cydgysylltiad llawer o faterion cynaladwyedd a dylai helpu ysgolion i lwyddo'n sydyn wrth symud o un pwnc i un arall.

Sut Caiff Ysgolion eu Hasesu a'u Dyfarnu

Bydd ysgolion yn asesu eu cynnydd eu hunain, gan ddefnyddio'r Cynllun hwn i'w helpu i bennu'r safon y maent wedi ei chyrraedd ym mhob pwnc y maent wedi gweithio arno. Dylid casglu'r dystiolaeth ac ar gais, ei chyflwyno i FfAAA i'w gwirio. Gall ysgolion ymgeisio am ddyfarniad pan fyddant wedi cyflawni cynnydd addas gydag o leiaf tri phwnc.

Mae'r canlynol yn amlinellu'r hyn y disgwylir i ysgol ei gyflawni ar gyfer pob dyfarniad:

Dyfarniad Efydd = Safon Efydd o leiaf mewn tair thema

Gwobr Arian = Safon Arian o leiaf mewn tair thema

Dyfarniad Aur = Safon Aur o leiaf mewn tair thema

Er mwyn cyrraedd y Safon Arian, disgwylir bod yr ysgol eisoes wedi cyflawni neu ragori ar yr holl gamau gweithredu ar gyfer y Safon Efydd, ac er mwyn cyrraedd y Safon Aur, bydd ysgolion wedi cyflawni'r holl gamau gweithredu ar gyfer y Safon Efydd a'r Safon Arian. Er bod disgwyl i ysgolion roi cynnig ar bob un o'r camau gweithredu a restrir, hwyrach y bydd rhai camau gweithredu nad yw'n bosib eu cyflawni am resymau digon derbyniol, ac os felly, mae'n bosib y dyfernir gwobr beth bynnag.

Nid yw'r camau gweithredu a restrir yn y Cynllun hwn yn gwbl gynhwysfawr ac weithiau, awgrym ydynt o'r math o waith y gellir ei gyflawni. Gall ysgolion gasglu tystiolaeth o weithgareddau ychwanegol sy'n cyfrannu at y pwnc y maent yn gweithio arno.

Gall FfAAA drefnu bod aelod o staff neu aseswr annibynnol yn ymweld ag ysgolion sy'n ceisio am y Dyfarniad Aur. Bydd y broses wirio'n digwydd bob dwy flynedd gyda seremoni wobrwyo'n dilyn, lle bydd ysgolion yn cael eu cydnabod am eu cyflawniad.

Beth yw ADCDF?

Mae ADCDF yn dod â materion amgylcheddol a datblygu byd-eang ynghyd ac yn eu cymhwyso i'r holl agweddau ar ddysgu. Nid yw'n bwnc arwahanol nac yn set o wybodaeth benodol, ond casgliad ydyw o werthoedd, agweddau a sgiliau a ddylai fod yn rhan hanfodol o'r cwricwlwm ac yn treiddio drwy ethos a systemau rheoli'r ysgol.

Yn ôl llyfryn arweiniol a gyhoeddwyd gan ACCAC yn 2002, mae ADCDF yn ymwneud â'r:

- cysylltiadau rhwng y gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd a rhwng ein bywydau ni a bywydau pobl ledled y byd;
- anghenion a hawliau cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol;
- y cysylltiadau rhwng grym, adnoddau a hawliau dynol;
- goblygiadau lleol a byd-eang popeth a wnawn; a'r
- hyn y gall pobl ei wneud ynghylch materion lleol a byd-eang.

Mae hefyd wedi nodi a diffinio naw cysyniad allweddol sy'n sylfaen i ADCDF: cyd-ddibyniaeth; dinasyddiaeth a stiwardiaeth; anghenion a hawliau; amrywiaeth; newid cynaliadwy; ansawdd byw; ansicrwydd a rhagofalon; gwerthoedd a chanfyddiadau; a datrys anghydfodau.

ADCDF: Dealltwriaeth Gyffredin i Ysgolion

Er y bernir bod y cysyniadau allweddol yn parhau'n hanfodol i ADCDF, barnwyd eu bod yn rhy haniaethol i lawer eu deall. Felly, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ddogfen newydd yn 2008 sy'n rhoi arweiniad llawer mwy pendant ac ymarferol i athrawon.

Mae'r 'Ddealltwriaeth Gyffredin' hon yn amlinellu'r sgiliau a chwmpas y saith thema cynaladwyedd. Serch hynny, mae'n pwysleisio bod y rhain i gyd yn gysylltiedig ac na ddylid mynd i'r afael â hwy fel pynciau unigol, ond drwy amrywiaeth pynciau'r cwricwlwm a chamau gweithredu'r ysgol. Wrth i hyder ddatblygu, y gobaith yw y bydd athrawon yn gallu cysylltu'r themâu hyn â'r cysyniadau allweddol. Mae'r ddogfen hefyd yn darparu canllaw defnyddiol i ysgolion er mwyn iddynt werthuso'u cynnydd o ran ADCDF.

Y Cwricwlwm Newydd ar gyfer Cymru

Mae'r cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig ar gyfer ysgolion Cymru, sy'n cael ei gyflwyno o 2008, yn tanlinellu statws ADCDF unwaith eto. Mae Fframwaith ABCh ar gyfer plant 7-19 oed wedi cael ei addasu'n sylweddol, gyda Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn o'r pum thema a ddewiswyd i adlewyrchu blaenoriaethau allweddol Llywodraeth y Cynulliad. Mae cysylltiadau amlwg rhwng y themâu hyn, sydd hefyd yn cynnwys Dinasyddiaeth Weithredol, ac felly dylid cynnwys ADCDF a'i gefnogi drwyddi draw.

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cynnig ymagwedd newydd a radical at ddysgu i blant 3 i 7 oed, sy'n gyfannol, yn ddysgu drwy brofiad ac wedi'i seilio ar sgiliau. Ynghyd â'r Fframwaith Sgiliau newydd, mae'n cynnig sylfaen ddelfrydol ar gyfer datblygu'r ddealltwriaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd sy'n gysylltiedig ag ADCDF. Er bod datblygu cynaliadwy'n parhau fel gofyniad clir mewn rhai pynciau megis daearyddiaeth a gwyddoniaeth, dylid ymgorffori cynaladwyedd amgylcheddol a safbwyntiau byd-eang yn holl feysydd y cwricwlwm a bywyd yr ysgol.



Rhagair

Bwriad Cynllun **Ysgolion Cynaliadwy Abertawe** yw helpu'r ysgolion i ddatblygu gam wrth gam ym maes Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ESDGC/ADCDF) drwy'r cwricwlwm a'r ffordd y mae'r ysgol gyfan yn cael ei rheoli.

Mae'n adeiladu ar sylfaen lwyddiannus Gwobrau Ailgylchu Abertawe ac mae'n cynnwys wyth mater a gyflwynwyd yn Arweiniad Polisi i Ysgolion ESDGC a gyhoeddwyd gan FfAAA (SEEF) yn 2006. Ei fwriad hefyd yw ategu a chefnogi cynlluniau cenedlaethol sydd eisoes yn bodoli megis Eco-Sgolion, Ysgolion Iach ac Ysgolion Masnach Deg. Bydd yn helpu ysgolion Abertawe i geisio safonau uchel yn yr agwedd hanfodol hon ar addysg gyfoes yng Nghymru.

Yn Cadwch Gymru'n Daclus, rydym yn falch iawn o weld bod Abertawe ar flaen y gad yng Nghymru gyda menter ddefnyddiol ac ymarferol sy'n arwain athrawon drwy faes cymhleth Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang. Bydd Cynllun Ysgolion Cynaliadwy Abertawe yn gweithredu ochr yn ochr â'r rhaglenni hir sefydledig a bydd yn helpu ysgolion i gyflawni strategaeth 'Dealltwriaeth Gyffredin' Llywodraeth y Cynulliad. Fel pob fframwaith defnyddiol, bydd yn ategu gwaith cadarnhaol ESDGC sydd eisoes yn digwydd yn llawer o ysgolion Abertawe, ac rwy'n edrych ymlaen at weld mwy o Faneri Gwyrdd Eco-Sgolion Rhyngwladol yn cyhwfan ar draws Abertawe yn y dyfodol.

Gerry Taylor Rheolwr Eco-ysgolion Cymru

Yn Abertawe, mae cysylltiadau cadarn wedi bodoli erioed rhwng y Cynllun Ysgolion Iach, y Cynllun Eco-Sgolion a Fforwm Addysg Amgylcheddol Abertawe, sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu ymagwedd ysgol gyfan gyson ac effeithiol at Addysg Iechyd ac Amgylcheddol. Ein nod cyffredin yw datblygu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol ymhlith pobl ifanc er mwyn iddynt ddewis yn iach, nid yn unig fel unigolion ond hefyd yn y cyd-destun byd-eang, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Mae'r adnodd hwn a'r cynllun gwobrau'n rhoi arweiniad clir a fydd yn cefnogi'r gwaith y mae ysgolion eisoes yn ei wneud i gyflawni'r nod hwn, a gyda'n gilydd gallwn ragweld ac edrych ymlaen at y dydd pan fydd pob ysgol yn Abertawe wedi codi'r Faner Werdd ac ennill statws Ysgol Iach.

Angela Latimer Swyddog Ysgolion Iach, Cynllun Ysgolion Iach Abertawe

Mae'r cyflwyniad hwn i'r Cynllun yn cynnwys cyngor ynghylch **Sut i Ddefnyddio'r Adnodd** hwn, gwybodaeth gefndir am **Beth yw Addysg Datblygu Cynaliadwy** a Dinasyddiaeth Fyd-eang, a rhestr o gysylltiadau defnyddiol ar gyfer mwy o gefnogaeth, gan gynnwys FfAAA.



Cyflwyniad

Cysylltiadau Defnyddiol

Diben **Fforwm Addysg Amgylcheddol Abertawe (FfAAA)** yw gwella ansawdd addysg amgylcheddol ac addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang ar draws Abertawe. Drwy rwydwaith o sefydliadau ac unigolion lleol, mae FfAAA yn dod â chyfoeth o wybodaeth, sgiliau a phrofiad ynghyd er mwyn cynnig amrywiaeth o wasanaethau ac adnoddau i ysgolion, grwpiau ieuenctid ac oedolion, busnesau, y cyhoedd yn gyffredinol a sefydliadau eraill.

Mae'r adnoddau ar gyfer ysgolion yn cynnwys:

- cyfeirlyfr blynyddol o sefydliadau sy'n darparu neu'n cefnogi ADCDF
- Amlen Werdd - post rheolaidd i holl ysgolion Abertawe
- Blychau Gwyrdd - adnoddau ar themâu ADCDF ar gael i'w benthyg
- cyfleoedd i hyfforddi staff
- arweiniad ar bolisïau a chyhoeddiadau llawn gwybodaeth

Gellir dod o hyd i FfAAA yng Nghanolfan yr Amgylchedd (gweler y manylion cyswllt gyferbyn).

Canolfan yr Amgylchedd yw'r ganolfan ar gyfer addysg, gwybodaeth a gweithredu amgylcheddol yn Abertawe, sy'n darparu llawer o adnoddau i gefnogi ysgolion.
Cyswllt: Anita Houten
Rhif ffôn: 01792 469817
E-bost: education@environmentcentre.org.uk
Ar y we: www.environmentcentre.org.uk

Mae **Abertawe Gynaliadwy** yn cynyddu ymwybyddiaeth o gynaladwyedd drwy brosiectau partneriaeth amrywiol.
Cyswllt: Kathy Tate
Rhif ffôn: 01792 480200
E-bost: kathryn@environmentcentre.org.uk
Ar y we: www.sustainableswansea.net

Mae **Eco-Sgolion** yn darparu fframwaith delfrydol i gefnogi datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang mewn ysgolion.
Cyswllt: Gerry Taylor
Rhif ffôn: 02920 726978
E-bost: gerry.taylor@keepwalestidy.org
Ar y we: www.eco-schoolswales.org

Mae **Cynllun Ysgolion Iach Abertawe** yn cefnogi ymagweddau ysgol gyfan at iechyd.
Cyswllt: Angela Latimer
Rhif ffôn: 01792 784839
E-bost: angela.latimer@nphs.wales.nhs.uk

Published by

Swansea Environmental Education Forum
Fforum Addysg yr Amgylchedd Abertawe

Lles Anifeiliaid

Safon Efydd

Rheolaeth yr Ysgol

- Bod polisi lles anifeiliaid ar waith, yn cwmpasu anifeiliaid presennol yr ysgol, anifeiliaid a allai ddod i'r adeiladau ac ymweliadau gan yr ysgol i leoedd lle ceir anifeiliaid
- Mae cynllun gofal ysgrifenedig ar gyfer pob anifail anwes neu anifail yn yr ysgol
- Bod unrhyw anifeiliaid gwyllt sy'n cael eu hastudio (e.e. mân-filod, penbyliaid) yn cael eu trin â gofal a'u dychwelyd i'r man lle cafwyd hyd iddynt, gyda'r aflonyddu lleiaf posib ar eu cynefin
- Bod dŵr glân a bwyd ar gael i adar drwy'r flwyddyn, a'r bwyd naill ai'n hadau a brynwyd neu ddarnau o fwyd addas
- Bod tomen goed wedi'i chreu ar diroedd yr ysgol i gynnal amrywiaeth eang o anifeiliaid diasgwrn cefn
- Nid yw cemegau niweidiol yn cael eu defnyddio i reoli plâu neu chwyn e.e. peledi lladd gwlithod
- Bod y bwyd a brynir ar gyfer digwyddiadau'r ysgol a'r gwersi yn fwyd â thystysgrif yr RSPCA 'Freedom Food', yn organig a/neu wedi'i gynhyrchu'n lleol, lle bo hynny'n briodol ac ar gael

Gweithgareddau'r Cwricwlwm

- Mae un ymweliad o leiaf yn digwydd bob blwyddyn gan siaradwr sy'n ymwneud â lles anifeiliaid e.e. milfeddyg, nyrs filfeddygol, swyddog yr RSPCA, gwirfoddolwr gyda'r RSPB
- Mae pob disgybl yn cael cyfle i astudio anifeiliaid yn eu hamgylchedd naturiol o leiaf unwaith y flwyddyn e.e. ymweliad amgylcheddol a drefnwyd; astudio mân-filod ar diroedd yr ysgol
- Lles anifeiliaid, gan gynnwys y 'Pum Rhyddid', yn cael ei gynnwys yng nghwricwlwm yr ysgol
- Mae athrawon yn defnyddio adnoddau cyhoeddedig neu y gellir eu lawrlwytho sydd ar gael gan sefydliadau lles anifeiliaid

Safon Arian

Rheolaeth yr Ysgol

- Cartref ar gyfer bywyd gwyllt wedi'i sefydlu ar diroedd yr ysgol neu yn y gymuned leol e.e. blychau adar, draenogiaid neu ystlumod; nythod gwenynen unig neu wenyn
- Pennau hadau ar flodau ar diroedd yr ysgol yn cael eu gadael i'r adar gwylltion
- Mae gwaith cynnal a chadw ar dir yr ysgol yn cael ei wneud ar adegau priodol er mwyn osgoi ymyrryd â chylchoedd bywyd byd natur e.e. clirio pyllau ar ddiwedd yr hydref; dim tocio cloddiau yn ystod cyfnod nythu adar rhwng Mai a Hydref
- Mae'r ysgol wedi ymchwilio i godi arian ar gyfer sefydliadau cadwraeth neu les anifeiliaid e.e. drwy gynlluniau mabwysiadu anifeiliaid

Gweithgareddau'r Cwricwlwm

- Mae materion lles anifeilaidd wedi'u hymgorffori yn y cwricwlwm mewn sawl man gan gynnwys trafodaeth ar briodoldeb cadw anifeiliaid fel anifeiliaid anwes, perchnogaeth gyfrifol, ac amgylcheddau a gyfoethogwyd ar gyfer anifeiliaid caeth
- Mae pob disgybl yn cael cyfle i astudio anifeiliaid yn eu hamgylchedd naturiol o leiaf unwaith y tymor
- Mae pob disgybl yn cael cyfle i lunio cynllun gofal ar gyfer anifail anwes y teulu, un o anifeiliaid yr ysgol neu anifail anwes dychmygol
- Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgaredd ysgol gyfan i gynyddu ymwybyddiaeth o fater sy'n ymwneud â lles anifeiliaid e.e. fel rhan o ymgyrch genedlaetholn
- Mae athrawon yn defnyddio'r pecynnau adnoddau a'r deunyddiau amlgyfrwng sydd ar gael yn helaeth wrth ddysgu am les anifeiliaid

Safon Aur

Rheolaeth yr Ysgol

- Os yw'n ymarferol, tyfu perth frodorol a'i chynnal ar hyd ffin yr ysgol i ddarparu bwyd, cysgod a choridor i anifeiliaids
- Mae'r gymuned leol yn rhan o'r gwaith o greu a chynnal ardaloedd bywyd gwyllt ar dir yr ysgol
- Nid yw plaleiddiaid, chwynladdwyr na gwrtaith artiffisial yn cael eu defnyddio ar dir yr ysgol
- Mae'r ysgol yn ymwneud â sefydliadau mabwysiadu anifeiliaid neu gadwraeth, fel dull o atal creulondeb neu ddiogelu rhywogaethau mewn perygl

Gweithgareddau'r Cwricwlwm

- Mae disgyblion yn gyfrifol am les a gofal anifeiliaid yr ysgol o ddydd i ddydd, o dan oruchwyliaeth oedolyn a enwir
- Mae'r disgyblion yn weithgar yn sicrhau bod tiroedd yr ysgol yn glir o sbwriel er mwyn osgoi niweidio anifeiliaid
- Mae'r disgyblion yn trefnu ac yn rhedeg ymgyrch lles anifeiliaid yn yr ysgol neu'r gymuned
- Mae'r disgyblion h_n yn helpu'r disgyblion iau i ddeall pwysigrwydd gofalu'n gyfrifol am anifeiliaid a'r materion cysylltiedig e.e. drwy fentora cyfoedion
- Mae disgyblion yn ymchwilio i brosiectau neu sefydliadau lles anifeiliaid ac yn cynhyrchu gwaith e.e. CITES, Compassion in World Farming

Cyflwyniad

Gall rhoi cyfle i blant arsylwi, rhyngweithio a gofalu am anifeiliaid fod o fudd i'w datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a chyfrannu at ddealltwriaeth ehangach o gyfrifoldebau a pharch at fywyd.

Os yw ysgolion yn dewis cadw anifeiliaid, rhaid sicrhau eu lles corfforol a meddyliol ac ni ddylai'r dysgu ddigwydd ar draul unrhyw anifail. Mae'n rhaid i'r ysgol fod yn gwbl ymroddedig i ddarparu ar gyfer lles yr anifeiliaid gan ddefnyddio'r **Pum Rhyddid** fel canllaw (gweler isod). Dylid cael cynllun gofal ysgrifenedig manwl ar gyfer pob anifail a'i roi ar waith ar gyfer pob anifail.

Gall ysgolion hefyd ddarparu profiadau dysgu gwerthfawr drwy wahodd ymwelwyr perthnasol i'r ysgol neu fynd â disgyblion i leoedd sy'n gofalu'n dda am anifeiliaid e.e. Canolfan Anifeiliaid Llys Nini yr RSPCA, Canolfan Gwlyptiroedd Cenedlaethol Cymru, Fferm Gymunedol Abertawe.

Y **Pum Rhyddid** yw'r prif egwyddorion lles anifeiliaid a ddatblygwyd gan y **Cyngor Lles Anifeiliaid Fferm (FAWC)** ac fe'u defnyddir yn eang ledled y byd.

1. **Rhyddid rhag Newyn a Syched** – darparu ffynhonnell dŵr ffres hwylus a deiet sy'n cynnal iechyd a chryfder llawn.
2. **Rhyddid rhag Anghysur** – darparu amgylchedd priodol, gan gynnwys cysgod a man gorffwys cysurus.
3. **Rhyddid rhag Poen, Anaf neu Haint** – atal hynny neu ddiagnosis a thriniaeth gyflym.
4. **Rhyddid i fynegi Ymddygiad Arferol** – darparu digon o le, cyfleusterau priodol a chwmni anifeiliaid o'r un rhywogaeth.
5. **Rhyddid rhag Ofn a Loes** – sicrhau amodau a thriniaeth sy'n osgoi dioddef meddyliol.

Cynllun Ysgolion Cynaliadwy Abertawe

Lles Anifeiliaid

Cysylltiadau a Chefnogaeth

Mae **Llys Nini'r RSPCA** yn croesawu grwpiau ysgolion i'r ganolfan anifeiliaid ym Mhenllergaer ac yn cynnig staff i ymweld ag ysgolion.
Rhif ffôn: 01792 229435
E-bost: info@llysnini-rspca.org.uk
Ar y we: www.llysnini-rspca.org.uk

Mae **Fferm Gymunedol Abertawe** yn cynnig rhaglen addysg gyda sesiynau ar fwyd a ffermio, a chompostio.
Cyswllt: Leila Roberts
Rhif ffôn: 01792 578384
E-bost: leila@swanseacommunityfarm.org.uk
Ar y we: www.swanseacommunityfarm.org.uk

Gwybodaeth ac Adnoddau

Yr **RSPCA (y Gymdeithas Frenhinol dros Atal Creulondeb i Anifeiliaid)** – syniadau am gynlluniau gwersi ac adnoddau ar faterion lles anifeiliaid.
www.rspca.org.uk

Yr **RSPB (y Gymdeithas Frenhinol dros Amddiffyn Adar)** – adnoddau dysgu a gwybodaeth am ofalu am adar a materion cynaladwyedd eraill.
www.rspb.org.uk/ourwork/teaching

IFAW (Ffederasiwn Rhyngwladol dros Les Anifeiliaid) – taflenni ffeithiau am anifeiliaid amrywiol, o anifeiliaid anwes i rywogaethau mewn perygl.
www.ifaw.org

Compassion in World Farming – adnoddau addysgol a gwasanaeth siaradwyr mewn ysgolion.
www.ciwf.org.uk/resources/education

Published by

Swansea Environmental Education Forum
Fforum Addysg yr Amgylchedd Abertawe

Bioamrywiaeth

Safon Efydd

Rheolaeth yr Ysgol

- Mae archwiliad ecolegol o dir yr ysgol wedi'i gwblhau er mwyn darganfod pa blanhigion ac anifeiliaid sy'n defnyddio'r safle ar hyn o bryd, ac sy'n ystyried y gweithgaredd tymhorol a nosol
- Mae bwydwyr adar wedi'u gosod mewn mannau addas, ac yn cael eu glanhau a'u llenwi â bwyd addas
- Mae dŵr yfed yn cael ei ddarparu ar gyfer anifeiliaid sy'n ymweld â thir yr ysgol
- Mae pentyrrau o gyffion coed yn cael eu creu ar dir yr ysgol i gynnal anifeiliaid di-asgwrn-cefn a'r creaduriaid sy'n bwydo arnynt
- Caiff rhai ardaloedd porfa eu cadw'n fyr fel bod adar a mamaliaid yn gallu fforio am greaduriaid sy'n byw yn y ddaear, ac ardaloedd eraill yn cael tyfu'n wyllt er mwyn darparu cysgod i wahanol greaduriaid ar adegau gwahanol yn y flwyddyn
- Nid yw cemegau niweidiol yn cael eu defnyddio i reoli plâu neu chwyn e.e. peledi lladd gwlithod
- Ni chaiff compost mawn a photiau mawn eu defnyddio
- Caiff sbwriel ei symud o dir yr ysgol yn rheolaidd rhag i greaduriaid gael eu dal neu fwyta deunyddiau a allai eu niweidio

Gweithgareddau'r Cwricwlwm

- Mae'r holl ddisgyblion yn dysgu am fflora a ffawna tir yr ysgol o leiaf unwaith y flwyddyn
- Mae'r holl ddisgyblion yn cael cyfle i ymweld ag ardal werdd y tu allan i'r ysgol o leiaf unwaith y flwyddyn i ddysgu am fywyd gwyllt

Safon Arian

Rheolaeth yr Ysgol

- Mae cynllun cynnal a chadw tiroedd yr ysgol ar waith, sy'n sicrhau nad yw tasgau pwysig yn cael eu hanghofio ac nad ydynt yn digwydd ar adegau a fydd yn effeithio'n andwyol ar fywyd gwyllt e.e. ddim yn tocio gwrychoedd yn ystod tymor nythu adar; ddim yn clirio pyllau yn ystod y tymor bridio
- Caiff amrywiaeth o blanhigion blodeuol eu tyfu ar dir yr ysgol i sicrhau cyflenwad da o neithdar ar gyfer creaduriaid di-asgwrn-cefn
- Mae gwrychoedd a choed wedi'u plannu ar dir yr ysgol neu yn y gymuned i ddarparu bwyd, cysgod a llwybrau ar gyfer bywyd gwyllt
- Nid yw'r planhigion a gyflwynir i diroedd yr ysgol yn ymledol, ac maent yn cael eu prynu'n lleol lle bynnag y bo'n bosibl
- Caiff ardaloedd o fieri, eiddew a danadl eu cadw ar dir yr ysgol i ddarparu bwyd, cysgod a lle i nythu
- Mae nodwedd ddŵr naturiol yn cael ei chynnal ar dir yr ysgol i ddarparu dŵr yfed a chynefin i greaduriaid amrywiol
- Mae'r holl bren y mae'r ysgol yn ei brynu o goetiroedd a reolir yn gynaliadwy e.e. tystysgrif Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC)

Gweithgareddau'r Cwricwlwm

- Mae'r holl ddisgyblion yn cael cyfle i ymweld ag ardal werdd y tu allan i'r ysgol o leiaf unwaith y flwyddyn i ddysgu am fywyd gwyllt
- Mae materion bioamrywiaeth wedi'u hymgorffori yn llawer o bynciau'r cwricwlwm a phrosiectau dosbarth
- Mae'r holl ddisgyblion yn cael cyfle i gymryd rhan mewn arolygon cenedlaethol blynyddol e.e. Arolwg Mawr Adar yr Ardd yr RSPB; Arolwg y Gwanwyn a'r Hydref y Ditectifs Byd Natur; Cyfrif Gwyfynod Cenedlaethol

Safon Aur

Rheolaeth yr Ysgol

- Caiff amrywiaeth o gynefinoedd eu cynnal ar dir yr ysgol sy'n denu amrywiaeth eang o rywogaethau
- Mae diwrnod agored wedi cael ei drefnu i ddathlu fflora a ffawna tiroedd yr ysgol gyda'r gymuned ehangach
- Mae un o glybiau'r ysgol neu grŵp cymunedol yn cymryd rhan i gynnal a chadw ardal bywyd gwyllt yr ysgol neu'n rheoli tiroedd yr ysgol ar gyfer bywyd gwyllt
- Nid yw plaleiddiaid, chwynladdwyr na gwrtaith artiffisial yn cael eu defnyddio ar dir yr ysgol
- Mae compostio'n digwydd ar dir yr ysgol i gynnal dadelfenyddion a'u hysglyfaethwyr
- Mae'r ysgol wedi mabwysiadu darn o dir glas lleol at ddefnydd cwricwlaidd ac mae'r disgyblion yn helpu i'w reoli ar gyfer bywyd gwyllt

Gweithgareddau'r Cwricwlwm

- Mae'r holl ddisgyblion yn dysgu am fflora a ffawna tir yr ysgol o leiaf unwaith y flwyddyn
- Mae'r ysgol yn helpu i gofnodi fflora a ffawna tir yr ysgol
- Mae'r disgyblion yn cael cyfle i gasglu ac egino hadau blodau gwyllt neu goed lleol a'u hailblannu ar dir yr ysgol neu safleoedd yn y gymuned leol

Cyflwyniad

Gall ysgolion gyflawni gwaith pwysig wrth gynyddu ymwybyddiaeth o golledion bioamrywiaeth a'r bygythiadau byd-eang i lawer o rywogaethau, yn y DU ac ar draws y byd.

Mae lefelau uchel cymeriant a threuliant a phoblogaeth sy'n cynyddu wedi gosod pwysau mawr ar fioamrywiaeth y byd. Mae bywyd gwyllt dan fygythiad oherwydd colli cynefinoedd drwy weithgareddau dynol megis amaethyddiaeth, datblygiad trefol a chymynu coed, ac oherwydd newid yn yr hinsawdd, llygredd, gorddefnyddio a chyflwyno rhywogaethau anfrodorol. Cred gwyddonwyr ein bod yn profi'r difa mwyaf ar fywyd gwyllt ers diflaniad y dinosoriaid.

Mae'n hawdd gweld y bygythiad i rywogaethau mawr a phoblogaidd megis y gorila, ond mae colli llawer o'r rhywogaethau a'r cynefinoedd yn digwydd heb i neb sylwi. Yn ystod y ganrif ddiwethaf, collwyd mwy na 170 o rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid yn y DU. Ers yr Ail Ryfel Byd, rydym wedi colli 97% o'n dolau blodau gwyllt, 75% o'n rhostiroedd a 98% o gorsydd mawn yr iseldir. Mae mwy na 200,000 o filltiroedd o'n gwrychoedd a 50% o'n coetiroedd hynafol wedi diflannu.

Mae bywyd gwyllt nid yn unig yn rhoi pleser i'r ddynoliaeth, ond mae hefyd yn dibynnu ar fodolaeth planhigion ac anifeiliaid am fwyd, meddyginiaeth, ynni a hyd yn oed yr awyr rydym yn ei anadlu.

Dylai disgyblion ddatblygu dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng y ddynoliaeth a rhywogaethau eraill. Gall ysgolion gefnogi bioamrywiaeth drwy greu a chynnal cynefinoedd amrywiol ar eu tiroedd a thrwy osgoi defnyddio cynnyrch sy'n gallu niweidio bywyd gwyllt, naill ai wrth eu cynhyrchu neu wrth eu defnyddio.

Cynllun Ysgolion Cynaliadwy Abertawe

Bioamrywiaeth

Cysylltiadau a Chefnogaeth

Mae **Tîm Cadwraeth Natur Adran Amgylchedd Dinas a Sir Abertawe** yn hyrwyddo diogelu asedau naturiol Abertawe, yn rheoli gwarchodfeydd natur lleol ac yn cefnogi gweithgareddau i gynyddu ymwybyddiaeth ac addysg amgylcheddol.
Cyswllt: Jo Mullett
Rhif ffôn: 01792 635784
E-bost: jo.mullett@swansea.gov.uk
Ar y we: www.swansea.gov.uk/natureconservationteam

Mae **Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru** yn cynnig ymweliadau â gwarchodfeydd natur a chefnogaeth addysgol arall..
Rhif ffôn: 01656 724100
E-bost: info@welshwildlife.org
Ar y we: www.welshwildlife.org

Gwybodaeth ac Adnoddau

Ditectifs Natur Coed Cadw Natur – prosiect addysg ar gyfer ysgolion cynradd, gydag adnoddau addysgu ac yn cynnig glasbrennau coed am ddim.
www.naturedetectives.org.uk

Ysgolion Un Planed y WWF – adnoddau a gweithgareddau ar faterion amgylcheddol amrywiol gan gynnwys rhywogaethau a choedwigoedd mewn perygl.
www.wwf.org.uk/oneplanetschools

Yr **RSPB (y Gymdeithas Frenhinol dros Amddiffyn Adar)** – adnoddau dysgu a gwybodaeth am ofalu am adar a materion cynaladwyedd eraill.
www.rspb.org.uk/ourwork/teaching

UK Safari – ffotograffau, gwybodaeth a thaflenni ffeithiau ar fywyd gwyllt Prydain.
www.uksafari.com

Breathing Places y BBC – syniadau am weithgareddau, adnoddau i'w lawrlwytho a chylchlythyr i ysgolion.
www.bbc.co.uk/breathingplaces/schools

Published by

Swansea Environmental Education Forum
Fforum Addysg yr Amgylchedd Abertawe

Safon Efydd

Rheolaeth yr Ysgol

- Mae archwiliad ynni a dŵr wedi'i gwblhau i geisio nodi ble mae ynni a dŵr yn cael eu defnyddio, ac mae'r data'n cael ei ddadansoddi i ddangos sut cawsant eu defnyddio dros y 3 blynedd blaenorol
- Mae cynllun gweithredu wedi'i lunio gyda chamau byr dymor a hir dymor i helpu'r ysgol i fod yn fwy effeithlon wrth ddefnyddio ynni a dŵr
- Caiff mesuryddion ynni a dŵr eu monitro a'r defnydd ohonynt ei gofnodi bob mis a'u cymharu â biliau ynni a dŵr yr ysgol
- Cafodd ymgyrch effeithlonrwydd ynni a dŵr eu monitro a'r defnydd ohonynt ei gofnodi bob mis a'u cymharu â biliau ynni a dŵr yr ysgol ei chyflawni fel bod goleuadau a chyfarpar yn cael eu diffodd pan nad oes eu hangen, bod tapiau wedi'u cau'n iawn, a bod drysau a ffenestri allanol wedi'u cau yn ystod y tymor gwresogi
- Mae'r systemau boeler a gwresogi'n cael gwasanaeth rheolaidd a'r rheolyddion gwresogi'n cael eu haddasu er mwyn bod yn ynni effeithlon e.e. thermostatau ystafelloedd yn cael eu gosod ar y tymheredd gorau i osgoi gorwresogi
- Rheolyddion fflysio awtomatig wedi eu gosod ar wrinalau ac yn gweithredu'n iawn

Gweithgareddau'r Cwricwlwm

- Mae'r disgyblion yn dysgu am y gwahanol ddulliau o gynhyrchu trydan ac aneffeithlonrwydd y Grid Cenedlaethol
- Mae'r disgyblion yn dysgu am weithfeydd trin dŵr a sut mae dŵr glân yn cyrraedd ein tapiau
- Mae'r disgyblion yn ymchwilio i'r berthynas rhwng defnyddio ynni, allyriadau carbon a newid yn yr hinsawdd ac yn deall pwysigrwydd effeithlonrwydd ynni

Safon Arian

Rheolaeth yr Ysgol

- Mae data defnyddio ynni a dŵr yn cael ei drosglwyddo i Uned Ynni Corfforaethol y cyngor er mwyn cyhoeddi adroddiadau ar ddefnydd blynyddol, a chymharu â defnydd y blynyddoedd blaenorol
- Mae gan yr holl doiledau sisternau cyfoes neu bod dyfeisiau arbed dŵr arnynt - e.e. Water Hogs
- Mae casgenni dŵr wedi eu gosod o amgylch yr ysgol a'r dŵr sy'n cael ei gasglu'n cael ei ddefnyddio i ddyfrhau planhigion
- Ble bynnag y bo'n bosib, dim ond fflwroleuadau main (25mm) a fflwrleuadau ynni isel cryno sy'n cael eu defnyddio yn yr ysgol

Gweithgareddau'r Cwricwlwm

- Mae'r disgyblion yn dysgu am ynni adnewyddadwy ac yn ymchwilio i fanteision ac anfanteision pob math o gynhyrchu ynni e.e. yr haul, y gwynt, y Bared Hafren arfaethedig
- Mae'r disgyblion yn ymchwilio i arbed ynni a dŵr yn y cyd-destun lleol a byd-eang
- Mae'r disgyblion yn ymchwilio i oblygiadau parhau i ddibynnu ar economi olew yn lleol ac yn fyd-eang

Safon Aur

Rheolaeth yr Ysgol

- Gall yr ysgol ddangos ei bod yn lleihau'r defnydd o ddŵr ac ynni fwy na 5% o'r adroddiadau ar ddefnyddio cyfleustodau, gyda gwelliannau yn y blynyddoedd wedi hynny
- Mae un dull ynni adnewyddadwy wedi'i osod ar y safle, sy'n weithredol ac yn cael ei ddefnyddio at ddibenion addysgol e.e. dŵr cynnes o ynni'r haul, tyrbin gwynt bach
- Mae'r ysgol yn ymchwilio i systemau dŵr llwyd i fflysio toiledau, a lle bo hynny'n addas, yn buddsoddi yn y rheiny
- Mae'r ysgol wedi ystyried newid i dariff gwyrdd ar gyfer y cyflenwad trydan

Gweithgareddau'r Cwricwlwm

- Mae'r disgyblion yn monitro'r defnydd o ddŵr gartref ac yn llunio Deg Awgrym Gorau ar gyfer arbed ynni a dŵr, a fydd yn cael eu hanfon adref at rieni
- Mae'r disgyblion yn gwneud ac yn ymchwilio i fodelau ynni adnewyddadwy sy'n gweithio e.e. ffyrnau solar, tyrbinau dŵr
- Mae'r disgyblion yn chwarae rôl sefyllfa cynhyrchu ynni e.e. a ddylid adeiladu fferm wynt; a ddylai'r DU fuddsoddi i gynhyrchu mwy o ynni niwclear
- Mae cysylltiadau'n cael eu sefydlu gydag ysgolion eraill mewn hinsoddau gwahanol a chyflawnir gwaith prosiect ar y cyd i gymharu'r defnydd o ynni a dŵr

Cyflwyniad

Gall ysgolion leihau eu costau a'u heffaith ar yr amgylchedd drwy sicrhau eu bod yn defnyddio ynni a dŵr yn effeithlon.

Mae'r galw am ynni'n cynyddu ar draws y byd, ond caiff y rhan fwyaf o'n hynni ei gynhyrchu o losgi tanwydd ffosil, sy'n rhyddhau nwyon tŷ gwydr i'r atmosffer. Y newid yn yr hinsawdd a disbyddu tanwydd ffosil yw'r ddwy her fwyaf sy'n bygwth ansawdd bywyd y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol, felly dylai lleihau faint o ynni a ddefnyddir fod yn flaenoriaeth i bob un ohonom.

Mae'r ffordd y mae'r rhan fwyaf o ynni'n cael ei ddefnyddio'n aneffeithlon iawn a gellir arbed cryn dipyn drwy reoli hynny'n well e.e. diffodd goleuadau ac offer pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Gyda chostau tanwydd yn cynyddu, gall ysgolion elwa'n ariannol ar fuddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni a ffynonellau ynni adnewyddadwy.

Mae'r defnydd o ddŵr wedi cynyddu'n syfrdanol dros y degawdau diwethaf hefyd a chydag effeithiau twf yn y boblogaeth, newid yn yr hinsawdd a ffordd o fyw ar draws y byd gyda'i gilydd, ni fydd digon o ddŵr i ddiwallu anghenion y dyfodol. Mae tynnu dŵr o gyrsiau dŵr naturiol a gollwng cemegau llygrol i afonydd a'r môr yn bygwth cymunedau a bywyd gwyllt mewn sawl rhan o'r byd.

Mae crynhoi, trin a dosbarthu dŵr i'n cartrefi a'n hysgolion yn golygu defnyddio ynni ac adnoddau, felly dylem herio'r ffordd rydym yn defnyddio dŵr yfed i glirio toiledau a dyfrhau gerddi. Mae gosod offer arbed dŵr a chasglwyr dŵr glaw mewn ysgolion yn arbed arian drwy leihau faint o ddŵr yfed sy'n cael ei ddefnyddio'n sylweddol

Cynllun Ysgolion Cynaliadwy Abertawe

Ynni a Dŵr

Cysylltiadau a Chefnogaeth

Mae **Uned Ynni Corfforaethol Dinas a Sir Abertawe** yn darparu gwasanaeth cynghori am ddim ar arferion effeithlonrwydd ynni a dŵr mewn ysgolion.
Cyswllt: John Llewellyn
Rhif ffôn: 01792 636359
E-bost: john.llewellyn@swansea.gov.uk

Mae **Canolfan Eco Gorllewin Cymru** yn darparu gwybodaeth, cyngor a gweithgareddau addysgol ar faterion ynni, newid yn yr hinsawdd a chynaladwyedd.
Rhif ffôn: 01239 820235
E-bost: westwales@ecocentre.org.uk
Ar y we: www.ecocentre.org.uk

Mae gan **Ganolfan Gwlyptiroedd Cenedlaethol Cymru Ganolfan Darganfod Dŵr** bwrpasol sy'n amlygu pwysigrwydd dŵr i bobl a bywyd gwyllt.
Rhif ffôn: 01554 741087
E-bost: education.llanelli@wwt.org.uk
Ar y we: www.wwtlearn.org.uk

Gwybodaeth ac Adnoddau

Yr Ymddiriedolaeth Garbon – sawl llyfryn ymarferol i ysgolion ar ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni.
www.thecarbontrust.co.uk

Cyfeillion y Ddaear – adnoddau dysgu a disgyblion am faterion amrywiol gan gynnwys ynni a newid yn yr hinsawdd.
www.foe.co.uk/learning

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru – gweithgareddau rhyngweithiol a gemau ar y we i ddisgyblion i archwilio materion fel ynni, newid yn yr hinsawdd a dŵr.
www.environment-agency.gov.uk/fun

Dŵr yn yr Ysgol – gwefan ryngweithiol a llawn hwyl sy'n galluogi disgyblion i ymchwilio i sut mae dŵr yn cael ei ddefnyddio yn yr ysgol.
www.waterintheschool.co.uk

WaterAid – adnoddau i ysgolion cynradd ac uwchradd gan gynnwys pecynnau dysgu a thaflenni gwybodaeth am faterion datblygu.
www.wateraid.org.uk/uk

Published by

Swansea Environmental Education Forum
Fforum Addysg yr Amgylchedd Abertawe

Bwyd a Ffermio

Safon Efydd

Rheolaeth yr Ysgol

- Caiff cynnyrch masnachu teg, organig neu leol ei ddefnyddio ar gyfer o leiaf un o weithgareddau'r ysgol e.e. digwyddiad cymunedol neu godi arian
- Te a choffi masnachu teg yn ystafell y staff
- Mae'r plant yn gallu cael dŵr yfed ffres bob amser
- Mae gwastraff gardd gwyrdd a gwastraff y siop ffrwythau'n cael ei gompostio, os yw'n berthnasol

Gweithgareddau'r Cwricwlwm

- Mae'r holl ddisgyblion yn tyfu ffrwythau a llysiau'n organig yn yr ysgol, gan ddefnyddio naill ai cynwysyddion neu yng ngardd yr ysgol, ac yn cynaeafu, paratoi ac yn bwyta'r cynnyrch a dyfwyd
- Mae'r disgyblion yn cynllunio ac yn paratoi o leiaf un pryd iach
- O leiaf unwaith y flwyddyn, trefnir ymweliad gan siaradwr allanol sy'n ymwneud â'r gadwyn gyflenwi bwyd leol e.e. ffermwr, swyddog lles anifeiliaid, cigydd
- Mae disgyblion yn dysgu am agweddau ar dyfu bwyd mewn mwy nag un maes cwricwlwm e.e. hanes ffermio; cyfrifiadau milltiroedd bwyd; effeithiau'r hinsawdd ar ffermio
- Mae'r plant yn ymchwilio i ffynonellau hoff bryd e.e. o ble mae'n dod, sut mae'n cael ei gynhyrchu, faint o filltiroedd bwyd sydd ynghlwm wrtho
- Mae'r disgyblion yn ymchwilio i filltiroedd bwyd a masnachu teg neu ddewisiadau organig wrth ddewis bwyd ar gyfer gweithgaredd neu ddigwyddiad yn yr ysgol

Safon Arian

Rheolaeth yr Ysgol

- Caiff cynnyrch masnachu teg, organig neu leol ei ddefnyddio'n aml ar gyfer digwyddiadau'r ysgol ac wrth ddysgu e.e. coginio, blasu bwyd
- Dewisiadau iach yn unig sydd ar gael yn siop yr ysgol ac fel bwyd ychwanegol amser cinio
- Mae rhieni'n cael gwybodaeth a syniadau ynghylch pecynnau bwyd iach
- Mae clwb bwyta'n iach neu glwb garddio organig ar gael i bob disgybl ac mae'n cynnwys tyfu cnydau y gellir eu bwyta
- Mae'r holl wastraff gardd gwyrdd, gwastraff ffrwythau a llysiau amrwd o siop fach yr ysgol ac o leiaf peth gwastraff o weithgareddau eraill yr ysgol yn cael ei gompostio
- Caiff compost yr ysgol ei ddefnyddio i dyfu cnydau yn yr ysgol

Gweithgareddau'r Cwricwlwm

- Mae'r disgyblion yn cynllunio ac yn paratoi pryd o fwydydd a gafwyd yn lleol, sy'n organig ac yn eu tymor
- Mae pob disgybl yn cael y profiad o ymweld â fferm âr neu fferm fugeiliol o leiaf unwaith yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol e.e. safle 'casglwch drosoch eich hunan' neu fferm laeth
- Caiff materion bwyd a ffermio eu cynnwys mewn sawl rhan o'r cwricwlwm gyda phwyslais ar ddinasyddiaeth a dulliau ffermio cynaliadwy
- Mae'r plant yn dysgu am les anifeiliaid fferm yng nghyd-destun ein cadwyn fwyd
- Mae'r disgyblion yn dysgu am bwysigrwydd cynnal amrywiaeth mewn ffermio âr a bugeiliol a rôl pryfed wrth gynhyrchu cnydau

Safon Aur

Rheolaeth yr Ysgol

- Mae holl fwyd yr ysgol, ble bynnag y bo'n bosib, yn lleol, yn organig ac yn ei dymor a/neu fasnach deg
- Mae'r clwb garddio organig neu fwyta'n iach yn sefydlu cysylltiadau lleol e.e. gyda chymdeithas rhandir leol neu brosiect bwyd cymunedol
- Mae ardal gardd organig wedi ei sefydlu i dyfu cnydau ar gyfer yr ysgol
- Mae'r holl wastraff gardd gwyrdd a'r gwastraff ffrwythau a llysiau amrwd o'r ysgol gyfan, gan gynnwys y ceginau, yn cael ei gompostio
- Os yw'r ysgol yn deori cywion neu hwyaid bach, mae'r ysgol yn sicrhau lles anifeiliaid ar hyd bob cam

Gweithgareddau'r Cwricwlwm

- Mae'r disgyblion yn rhannu'r cyfrifoldeb am les a gofal anifeiliaid yr ysgol, o dan oruchwyliaeth oedolyn a enwir
- Drwy gynlluniau cysylltiadau rhyngwladol, mae'r disgyblion yn dysgu am ddulliau cyflenwi a chynhyrchu bwyd mewn gwledydd eraill
- Mae'r disgyblion yn ymchwilio i ddulliau cynhyrchu bwyd cynaliadwy e.e. tyfu'n organig, cadwraeth coedwigoedd glaw, cadwraeth pysgodfeydd môr
- Mae'r disgyblion yn ymchwilio i ddulliau organig o wella iechyd a chnwd cnydau ac yn eu rhoi ar waith e.e. plannu cefnogol, cylchdro cnydau, compostio

Cyflwyniad

Gall ysgolion helpu plant i gael dealltwriaeth well o sut mae bwyd yn cael ei gynhyrchu a'i ddosbarthu ac effaith enfawr y prosesau hyn ar yr amgylchedd a chymunedau ar draws y byd.

Mae llawer o arferion amaethyddol ac acwafeithrin anghynaladwy yn achosi dirywiad mewn adnoddau naturiol a bioamrywiaeth. Pan fydd ymdrechion i leihau costau, gall lles anifeiliaid a hawliau dynol hefyd gael eu hesgeuluso. Mae'r cynnydd mewn cludo bwyd hefyd yn cyfrannu at newid yn yr hinsawdd.

Mae lles a datblygiad plant ynghlwm wrth eu deiet ac mae gan ysgolion waith pwysig i gynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd prynu a bwyta bwyd cynaliadwy ac iach fel rhan o ffordd gyfrifol a synhwyrol o fyw. Dylai pob plentyn ddysgu am gynhyrchu bwyd a hefyd gael cyfle i dyfu, paratoi a choginio bwyd ac ymweld â fferm weithio. Dylai ysgolion fod yn esiamplau da i ddisgyblion a'r gymuned ehangach drwy ddarparu bwyd iach, lleol ac yn ei dymor.

Daw masnachu teg â dimensiwn byd-eang i'r thema hon a dylid ei gynnwys mewn gweithgareddau dosbarth. Dylai hynny gael ei adlewyrchu hefyd ym mholisïau prynu moesol yr ysgol hefyd.

Cynllun Ysgolion Cynaliadwy Abertawe

Bwyd a Ffermio

Cysylltiadau a Chefnogaeth

Mae **Fferm Gymunedol Abertawe** yn cynnig rhaglen addysg gyda sesiynau hanner diwrnod neu ddiwrnod cyfan ar fwyd a ffermio, a chompostio.
Cyswllt: Leila Roberts
Rhif ffôn: 01792 578384
E-bost: leila@swanseacommunityfarm.org.uk
Ar y we: www.swanseacommunityfarm.org.uk

Mae **Cynllun Ysgolion Iach Abertawe** yn cefnogi ymagweddau ysgol gyfan at iechyd a maeth ac mae'n cynnal Cynllun Ysgolion Iach Abertawe.
Cyswllt: Angela Latimer
Rhif ffôn: 01792 784839
E-bost: angela.latimer@nphs.wales

Gwybodaeth ac Adnoddau

Ysgolion sy'n Tyfu – adnoddau, hyfforddiant a cefnogaeth i athrawon sy'n dymuno cynnwys plant mewn prosiectau tyfu a ffermio.
www.teachernet.gov.uk/growingschools

Garddio Organig i Ysgolion – gwybodaeth, adnoddau a syniadau sy'n gysylltiedig â garddio organig.
www.schoolsorganic.net

e.ysgol.iach – gwefan ysgolion adran Hybu Iechyd Llywodraeth Cynulliad Cymru lle ceir adnoddau ac arweiniad ar faeth a materion iechyd eraill.
www.healtheschool.org.uk/teachers/nutrition.htm

Compassion in World Farming – adnoddau addysgol a gwasanaeth siaradwyr i ysgolion.
www.ciwf.org.uk/resources/education

Y Sefydliad Masnach Deg – ty sefydliad ymgyrchu dros Marc MASNACH DEG ac sy'n cynnig gwybodaeth ac adnoddau o safon ar fasnachu teg.
www.fairtrade.org.uk

Published by

Swansea Environmental Education Forum
Fforum Addysg yr Amgylchedd Abertawe

Dinasyddiaeth fyd Eang

Safon Efydd

Rheolaeth yr Ysgol

- Mae gan yr ysgol gyngor ysgol sy'n cynnwys cyfranogiad disgyblion ar bob lefel
- Caiff materion byd-eang eu cyflwyno'n rheolaidd mewn gwasanaethau, ac weithiau'n cynnwys ymwelwyr sy'n arbenigwyr
- Mae arddangosiadau o gwmpas yr ysgol yn adlewyrchu'r dimensiwn byd-eang yn y dysgu ac yn atgyfnerthu syniadau cadarnhaol am bobl o ddiwylliannau a gwledydd gwahanol
- Caiff disgyblion gyfle i godi arian i elusennau e.e. Age Concern, Achub y Plant, Oxfam
- Defnyddir cynnyrch masnach deg ar gyfer digwyddiadau'r ysgol ac yn ystafelloedd y staff

Gweithgareddau'r Cwricwlwm

- Mae'r disgyblion yn astudio bywyd mewn rhannau gwahanol o'r byd, mewn gwlad Ewropeaidd a gwlad sy'n datblygu, er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o gyffelybiaethau a gwahaniaethau rhwng pobl a lleoedd o gwmpas y byd
- Mae'r disgyblion yn dysgu am fasnachu teg, efallai gyda help siaradwyr gwadd neu adnoddau gan asiantaethau allanol e.e. y Sefydliad Masnach Deg, Oxfam, Action Aid
- Mae'r disgyblion yn astudio effeithiau posib newid yn yr hinsawdd mewn gwahanol rannau o'r byd e.e. seiclon yn Burma

Safon Arian

Rheolaeth yr Ysgol

- Mae'r ysgol wedi trefnu o leiaf un diwrnod thema ar fater byd-eang, efallai wedi cysylltu ag ymgyrch neu ddigwyddiad rhyngwladol e.e. Diwrnod Iechyd y Byd, Diwrnod Dŵr y Byd, Diwrnod Byd-eang Gweithredu ar Hinsawdd
- Mae'r ysgol yn trefnu digwyddiadau a gweithgareddau i nodi Pythefnos Masnach Deg e.e. boreau coffi, ymweliadau ag archfarchnad, sesiynau blasu bwyd gan ddefnyddio cynnyrch masnachu teg
- Mae cysylltiad uniongyrchol wedi'i sefydlu gyda chymuned neu ysgol mewn un wlad sy'n datblygu o leiaf, efallai un o darddiad diwylliannol rhai o ddisgyblion yr ysgol

Gweithgareddau'r Cwricwlwm

- Mae'r disgyblion yn dysgu am hawliau dynol a'u cyfrifoldebau fel dinasyddion
- Mae disgyblion yn ymchwilio i ffynhonnell bwyd a deunyddiau cyffredin a bywydau'r cynhyrchwyr hynny
- Mae disgyblion yn cael cyfle i drafod manteision prynu nwyddau masnach deg, ystyried yr agweddau ariannol a'r effaith ar gynhyrchwyr
- Mae disgyblion yn dysgu am Nodau'r Mileniwm a gwaith y sefydliadau sy'n rhan o waith datblygu rhyngwladol e.e. y CU, cyrff elusennol

Safon Aur

Rheolaeth yr Ysgol

- Mae'r ysgol wedi trefnu o leiaf un wythnos weithgareddau i gynyddu'r ymwybyddiaeth am faterion byd-eang, lle mae'r plant yn cymryd rhan yn y trefnu a'r gymuned ehangach yn cael ei hannog i helpu i godi arian ar gyfer prosiect perthnasol
- Mae cyngor yr ysgol yn ymwneud yn weithgar â sawl prosiect y mae'n eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd
- Mae cyngor yr ysgol, y gymdeithas rieni neu grŵp arall yn yr ysgol yn defnyddio bancio moesol ar gyfer codi arian a chaffael
- Mae siop fasnach deg wedi'i sefydlu yn yr ysgol ac sy'n cael ei rhedeg gan y disgyblion
- Mae'r ysgol wrthi'n ddyfal yn lleihau ei chyfraniad i newid yn yr hinsawdd e.e. drwy ymgyrchoedd 'diffoddwch e', compostio gwastraff, gosod dulliau cynhyrchu ynni adnewyddadwy

Gweithgareddau'r Cwricwlwm

- Mae'r ysgol yn rhan o brosiectau cwricwlaidd cydweithredol drwy ohebu'n gyson, ar-lein, drwy fideo-gynadledda, ac os yw'n bosib, ymweliadau cyfnewid â chymuned neu ysgol mewn gwlad sy'n datblygu
- Mae'r disgyblion yn rhan o hybu arbed ynni a dulliau eraill o leihau achosion newid yn yr hinsawdd
- Caiff y disgyblion eu dysgu am strwythurau llywodraeth yma a thramor a sut gall dinasyddion fod yn weithgar yn y prosesau democrataidd
- Mae'r disgyblion yn cael cyfle i drafod dewisiadau gwahanol i gymorth rhyngwladol er mwyn lleihau tlodi a chefnogi datblygiad

Cyflwyniad

Mae pob un ohonom yn gysylltiedig â phobl, cymunedau ac amgylcheddau ar draws y byd oherwydd y bwyd rydym yn ei fwyta, y cynnyrch rydym yn ei brynu ac, yn gynyddol, y mannau rydym yn teithio iddynt yn ein gwaith neu ar wyliau. Rydym hefyd yn rhannu'r cyfrifoldeb a'r bygythiad gan heriau byd-eang mawr megis newid yn yr hinsawdd a dirywiad adnoddau naturiol.

Mae'n ddyletswydd ar ysgolion i feithrin dinasyddiaeth leol a byd-eang drwy hyrwydd dealltwriaeth o anghenion a hawliau'r ddynoliaeth, ei hamrywiaeth, cyfiawnder cymdeithasol a phwysigrwydd cyfrifoldeb yr unigolyn a chasgliadol dros greu byd gwell i fyw ynddo. Dylai'r disgyblion gael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy a chael cyfle i helpu eraill e.e. drwy fentora cyfoedion neu drefnu gweithgareddau elusennol.

Un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol i ysgolion hwyluso dealltwriaeth o ddiwylliannau a chymunedau eraill yw drwy greu cysylltiadau ag ysgolion mewn rhannau eraill o'r byd. Dylai ysgolion sicrhau bod yr adnoddau y maent yn eu defnyddio ar draws holl feysydd y cwricwlwm yn cael eu dewis yn ofalus i adlewyrchu amrywiaeth yn yr ysgol ac ar draws y byd.
Dylai'r disgyblion gael cyfle i ddatblygu meddwl beirniadol drwy drafod a dadlau materion megis masnach, tlodi ac anghydraddoldeb, a meithrin y sgiliau i herio anghyfiawnder a rhagfarn.

Cynllun Ysgolion Cynaliadwy Abertawe

Dinasyddiaeth fyd Eang

Cysylltiadau a Chefnogaeth

Mae **Oxfam Cymru** wedi datblygu Tîm Addysg Datblygu sy'n cynnig cyngor ar y cwricwlwm.
Rhif ffôn: 0870 010 9007
E-bost: oxfamcymru@oxfam.org.uk
Ar y we: www.oxfam.org.uk/cymru

Mae **Action Aid** yn cynnig ymweliadau ysgolion gan athrawon profiadol lleol.
Cyswllt: Ann Barnes
Rhif ffôn: 01792 290874
E-bost: l.ann.barnes@ntlworld.com
Ar y we: www.actionaid.org.uk/teacher_talks.html

Mae **Cyfanfyd** yn helpu sefydliadau addysg yng Nghymru i gynnwys dimensiwn byd-eang.
Rhif ffôn: 029 2066 8999
E-bost: info@cyfanfyd.org.uk
Ar y we: www.cyfanfyd.org.uk

Gwybodaeth ac Adnoddau

Action Aid, Cymorth Cristnogol ac Oxfam – sefydliadau ymgyrchu a chymorth sy'n cynnig gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang i ysgolion.
www.oxfam.org.uk/education
http://learn.christianaid.org.uk
www.actionaid.org.uk

Prosiect Datblygu Dinasyddiaeth – ymagweddau cwricwlwm ac ysgol gyfan ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang, yn bennaf i ysgolion uwchradd.
www.developingcitizenship.org.uk

Global Gateway – gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i bartneriaethau addysgol rhwng ysgolion ar draws y byd.
www.globalgateway.org.uk

Y Sefydliad Masnach Deg – y sefydliad ymgyrchu dros Marc MASNACH DEG ac sy'n cynnig gwybodaeth ac adnoddau o safon ar fasnachu teg.
www.fairtrade.org.uk

If the World Were a Village – llyfr da iawn gyda syniadau o'r we ar gyfer gweithgareddau ystafell ddosbarth sy'n gallu ysgogi trafodaeth ar amrywiaeth a materion byd-eang eraill.
www.acblack.com/globalvillage

Published by

Swansea Environmental Education Forum
Fforum Addysg yr Amgylchedd Abertawe

Tiroedd ac Adeiladau

Safon Efydd

Rheolaeth yr Ysgol

- Cwblhawyd arolwg o diroedd yr ysgol i ddarganfod ble, sut a phryd y maent yn cael eu defnyddio gan yr ysgol a chan y gymuned ehangach
- Nodwyd ardaloedd o ddiddordeb arbennig (e.e. ecolegol, hanesyddol), ynghyd â mannau y mae angen eu datblygu neu sydd â photensial i'w datblygu
- Mae pwyllgor wedi'i sefydlu i oruchwylio'r defnydd o diroedd yr ysgol a'u datblygu
- Cynhyrchwyd cynllun gweithredu syml ar gyfer defnydd hir dymor a byr dymor, a datblygu a chynnal a chadw tiroedd yr ysgol
- Cyflawnwyd arolwg o gyflwr adeiladau'r ysgol ac mae cynllun gweithredu er gwella wedi'i ddatblygu
- Nodwyd y ffynonellau cyllid posib er mwyn cefnogi datblygiad tiroedd yr ysgol

Gweithgareddau'r Cwricwlwm

- Caiff tiroedd yr ysgol eu defnyddio mewn sawl maes yn y cwricwlwm e.e. gwaith celf, mapio, arolygon mân-filod
- Mae'r holl ddisgyblion yn cael cyfle i gymryd rhan yn y penderfyniadau ynghylch datblygu tiroedd yr ysgol
- Mae'r disgyblion yn cael eu dysgu neu'n cael cyfle i ymchwilio i hanes adeilad yr ysgol a'i le yn hanes yr ardal leol

Safon Arian

Rheolaeth yr Ysgol

- Mae o leiaf un rhan o diroedd yr ysgol, a nodwyd yn y cynllun gweithredu, wedi cael ei datblygu er mwyn ei defnyddio'n well i gefnogi'r dysgu
- Mae staff wedi cael eu hyfforddi er mwyn iddynt ddefnyddio tiroedd yr ysgol yn well
- Mae'r holl gynnyrch glanhau a ddefnyddir yn yr ysgol yn llesol i'r amgylchedd
- Caiff opsiynau cynaliadwy eu dewis ar gyfer atgyweirio, cynnal a chadw, addurno ac adnewyddu gosodiadau yn nhiroedd ac adeiladau'r ysgol e.e. pren FSC, cynnyrch ynni effeithlon, offer dŵr-effeithlon, paent hydoddyddion isel neu organig, deunyddiau a ailgylchwyd

Gweithgareddau'r Cwricwlwm

- Caiff tiroedd yr ysgol eu defnyddio'n rheolaidd gydol y flwyddyn gan yr holl grwpiau oedran ac ar draws sawl maes cwricwlaidd
- Prynwyd adnoddau a chyfarpar i gefnogi defnyddio tiroedd yr ysgol e.e. dillad diddos, taflenni adnabod mân-filod, offer garddio
- Mae'r disgyblion yn rhan o'r gwaith o fapio adeilad yr ysgol a'i nodweddion e.e. deunyddiau adeiladu, mannau gwasanaethu cyfleustodau

Safon Aur

Rheolaeth yr Ysgol

- Mae cynllun blynyddol rheoli tiroedd yr ysgol ar waith sy'n cynnwys tasgau cynnal a chadw tymhorol, a lle bo hynny'n briodol, bod gan ddisgyblion rolau a chyfrifoldebau penodol
- Mae'r cyllid ar gyfer cynnal a chadw tiroedd yr ysgol wedi'i glustnodi yng nghyllideb flynyddol yr ysgol
- Caiff y defnydd o diroedd yr ysgol ei adolygu a'i fonitro a'i werthuso'n rheolaidd
- Mae system cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn yr ysgol
- Os yw cyfarpar a dodrefn y gellir eu hailddefnyddio'n cael eu disodli, cânt eu hanfon ar gyfer eu hailddefnyddio yn hytrach na'u gwared, a phrynir dewis cynaliadwy yn eu lle e.e. cynnyrch sy'n ynni effeithlon neu wedi'i wneud o ddeunyddiau wedi'i ailgylchu

Gweithgareddau'r Cwricwlwm

- Mae'r holl ddisgyblion yn cael cyfle i ddefnyddio tiroedd yr ysgol drwy gydol y flwyddyn a chael rhan yn y gwaith o'u rheoli yn rheolaidd
- Mae'r disgyblion wedi ymchwilio i gyfleoedd ynni adnewyddadwy sy'n addas i'r ysgol

Cyflwyniad

Gall tiroedd yr ysgol fod yn adnodd rhagorol ar gyfer dysgu a gellir eu datblygu er lles y disgyblion a'r gymuned ehangach a hefyd gwella bioamrywiaeth lleol. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial nac yn cael eu cynnal yn effeithiol nac yn gynaliadwy.

Pan fydd tiroedd ysgol yn groesawgar, yn ysgogol ac yn hwylus, gellir eu defnyddio i gefnogi llawer o agweddau ar ddatblygiad plant, gan ddarparu cyfle am ymarfer iachus, chwarae creadigol, a rhyngweithio cadarnhaol â phlant eraill a'r byd naturiol. Mae cynnwys plant wrth ddatblygu a rheoli tiroedd eu hysgol yn ffordd wych o feithrin ymdeimlad o berthyn, perchnogaeth a chyfrifoldeb. Gall tiroedd lle ceir amrywiaeth o nodweddion naturiol ac adeileddol, gynnig adnoddau i athrawon i helpu i ddysgu themâu amrywiol ar draws meysydd y cwricwlwm mewn ffordd fywiog ac ymarferol.

Mae gan ysgolion rôl bwysig yn eu cymunedau a dylent, ble bynnag y bo'n bosib, gynnig esiampl o arfer amgylcheddol da. Dylid datblygu tiroedd yr ysgol a'u rheoli gyda gofal am fywyd gwyllt, a phan fo angen atgyweiriadau neu welliannau ar adeiladau, dylai ysgolion ddefnyddio deunyddiau a gosodiadau a fydd yn effeithio leiaf ar yr amgylchedd.

Cynllun Ysgolion Cynaliadwy Abertawe

Tiroedd ac Adeiladau

Cysylltiadau a Chefnogaeth

Mae **Tîm Cadwraeth Natur Adran Amgylchedd Dinas a Sir Abertawe** yn hyrwyddo diogelu asedau naturiol Abertawe, yn rheoli gwarchodfeydd natur lleol ac yn cefnogi addysg amgylcheddol.
Cyswllt: Jo Mullett
Rhif ffôn: 01792 635784
E-bost: jo.mullett@swansea.gov.uk
Ar y web:
www.swansea.gov.uk/natureconservationteam

Mae **BTCV Cymru'n** darparu cyngor a chefnogaeth i blannu ar gyfer bywyd gwyllt ac adeiladu ystafelloedd dosbarth awyr agored.
Cyswllt: Ryan Keenan
Rhif ffôn: 01792 456224
E-bost: ryan.keenan@btcv.org.uk
Ar y web: www.btcvcymru.org

Mae **Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru** yn cynnig cyrsiau datblygiad proffesiynol i athrawon ar ddefnyddio a datblygu tiroedd yr ysgol.
Cyswllt: Trevor Roach
Rhif ffôn: 01558 667150
E-bost: education@gardenofwales.org.uk
Ar y web: www.gardenofwales.org.uk

Gwybodaeth ac Adnoddau

Dysgu drwy Dirweddau (Learning through Landscapes) – amrywiaeth eang o adnoddau ar ddefnyddio a datblygu tiroedd ysgolion, a gwasanaeth cefnogi sy'n ehangu i Gymru ar hyn o bryd.
www.ltl.org.uk

Ysgolion sy'n Tyfu (Growing Schools – adnoddau, hyfforddiant a chefnogaeth i athrawon sy'n dymuno cynnwys plant mewn prosiectau tyfu a ffermio.
www.teachernet.gov.uk/growingschools

Campaign for School Gardening – gwefan y Gymdeithas Garddwriaeth Frenhinol i ysgolion sy'n cynnig amrywiaeth o adnoddau, cynlluniau gwersi a syniadau am gyllid.
www.rhs.org.uk/schoolgardening

Yr Ymddiriedolaeth Garbon – sawl llyfryn ymarferol i ysgolion ar ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni.
www.thecarbontrust.co.uk

Dŵr yn yr Ysgol – gwefan ryngweithiol a llawn hwyl sy'n galluogi disgyblion i ymchwilio i sut mae dŵr yn cael ei ddefnyddio yn yr ysgol.
www.waterintheschool.co.uk

Published by

Swansea Environmental Education Forum
Fforum Addysg yr Amgylchedd Abertawe

Safon Efydd

Rheolaeth yr Ysgol

- Mae grŵp llywio sy'n cynnwys staff a disgyblion, efallai is-grŵp o gyngor yr ysgol, wedi'i sefydlu i fynd i'r afael â materion cludiant i'r ysgol
- Ymgymerwyd ag arolwg teithio ymhlith disgyblion, staff a rhieni i nodi'r dulliau teithio gwahanol i'r ysgol
- Mae adroddiad wedi'i baratoi sy'n disgrifio'r problemau cludiant a thraffig sy'n effeithio ar yr ysgol, yr amgylchedd a'r gymuned
- Caiff materion diogelwch ffyrdd a thrafnidiaeth eu cyflwyno o leiaf unwaith y flwyddyn mewn gwasanaeth, sy'n cynnwys ymweliadau gan arbenigwyr weithiau
- Cafwyd ymgyrch i gynyddu ymwybyddiaeth o broblemau traffig a dulliau gwahanol o deithio

Gweithgareddau'r Cwricwlwm

- Mae'r disgyblion yn ymgymryd ag arolygon teithio a thraffig ger yr ysgol, gan gyflwyno'r data mewn fformatau gwahanol ac yn trafod y canlyniadau
- Mae'r disgyblion yn ymchwilio i'r dulliau cludo a theithio gwahanol ac yn cael cyfle i drafod effeithiau amgylcheddol, iechyd a chymdeithasol pob un

Safon Arian

Rheolaeth yr Ysgol

- Mae'r grŵp llywio cludiant neu'r grŵp 'llwybrau diogel i'r ysgol' yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned leol a rhanddeiliaid perthnasol eraill e.e. swyddogion patrolau croesi
- Mae cynllun teithio i'r ysgol wedi'i datblygu i fynd i'r afael â'r problemau cludiant a thraffig a nodwyd
- Mae'r ysgol yn cynnal cynllun sgiliau beicio
- Mae'r ysgol wedi trefnu diwrnod cerdded neu feicio i'r ysgol, efallai wedi'i gysylltu ag ymgyrch genedlaethol
- Anogir staff ac ymwelwyr eraill â'r ysgol i gerdded, beicio, defnyddio cludiant cyhoeddus neu rannu ceir i'r ysgol neu leoliadau eraill

Gweithgareddau'r Cwricwlwm

- Mae o leiaf un ymweliad y flwyddyn gan siaradwr sy'n ymwneud â thrafnidiaeth gynaliadwy neu ddiogelwch ffyrdd e.e. tîm diogelwch ffyrdd y cyngor neu swyddog Sustrans
- Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgaredd ysgol gyfan i gynyddu ymwybyddiaeth o ddiogelwch ffyrdd neu deithio drwy ddull arall e.e. fel rhan o ymgyrch genedlaethol
- Mae disgyblion yn ymchwilio i gludo cynnyrch e.e. cyfrifo milltiroedd teithio pryd o fwyd cyffredin

Safon Aur

Rheolaeth yr Ysgol

- Mae'r ysgol wedi nodi a datblygu llwybrau diogel i'r ysgol ar gyfer cerdded a beicio a sefydlu ffyrdd i'w cynnal
- Mae'r ysgol yn cefnogi cynllun bws cerdded i annog cerdded i'r ysgol
- Mae cyfleusterau storio beicio a newid ar gael i gefnogi beicio i'r ysgol gan y staff a disgyblion
- Mae gweithdy cynnal ac atgyweirio beiciau wedi'i gynnal yn yr ysgol
- Mae'r ysgol yn ceisio cael bwyd a chynnyrch arall a gwasanaethau yn lleol er mwyn lleihau cludiant a theithiol

Gweithgareddau'r Cwricwlwm

- Mae disgyblion yn cymryd rhan wrth gynllunio a chynnal ymgyrch teithio cynaliadwy
- Mae'r disgyblion yn cael cyfle i gymryd rhan yng nghynllun Swyddogion Diogelwch Ffyrdd Iau ac yn rhannu negeseuon diogelwch ffyrdd gyda'u cyfoedion

Cyflwyniad

Mae cynyddu ymwybyddiaeth a newid y canfyddiad am ddewisiadau teithio ymhlith disgyblion, rhieni a staff yn hanfodol wrth fynd i'r afael â materion trafnidiaeth o gwmpas ysgolion.

Mae'r defnydd o geir yn y DU wedi cynyddu'n sylweddol yn y degawdau diwethaf gan gyfrannu at fwy o dagfeydd traffig ar y ffyrdd, ansawdd aer gwael a mwy o sŵn. Mae allyriadau o gerbydau ar y ffyrdd yn effeithio ar iechyd pobl ac yn cyfrannu at gynhesu byd-eang a newid yn yr hinsawdd. Mae tagfeydd traffig ac ansawdd aer gwael yn waeth mewn sawl ardal yn Abertawe oherwydd y ddaearyddiaeth leol a'r lleoliad arfordirol.

Gall defnyddio cludiant cyhoeddus helpu i leihau'r tagfeydd ar y ffyrdd a gostwng yr allyriadau nwyon niweidiol. Gall defnyddio ffordd arall o deithio, megis cerdded a beicio, fod o fudd i'n hiechyd a'r amgylchedd. Mae cefnogi cynnyrch lleol i leihau'n milltiroedd bwyd, a lleihau pellter a mynychder ein teithio ein hunain yn helpu hefyd.

Gellir gwella diogelwch ffyrdd o gwmpas ysgolion drwy reoli cyflymder a thagfeydd traffig. Gall ysgolion annog rhieni i rannu ceir neu ddefnyddio cludiant cyhoeddus drwy gyfyngu ar lefydd i barcio o gwmpas yr ysgol ac felly lleihau ar y nifer sy'n teithio yn y car i'r ysgol bob dydd. Gall yr awdurdod lleol a sefydliadau eraill helpu i nodi, datblygu a hyrwyddo llwybrau diogel ar gyfer cerdded a beicio i'r ysgol.

Cynllun Ysgolion Cynaliadwy Abertawe

Trafnidiaeth

Cysylltiadau a Chefnogaeth

Mae **Datblygu Llwybrau Diogel i Gymunedau Adran yr Amgylchedd Dinas a Sir Abertawe** yn datblygu cynlluniau i wneud cerdded a beicio i'r ysgol yn fwy diogel.
Cyswllt: Allison Gough
Rhif ffôn: 01792 636129
E-bost: allison.gough@swansea.gov.uk

Mae **Tîm Diogelwch Ffyrdd Adran yr Amgylchedd Dinas a Sir Abertawe'n** cefnogi ymgyrchoedd diogelwch ffyrdd a chamau eraill i wella diogelwch o gwmpas ysgolion.
Cyswllt: Jeff Green
Rhif ffôn: 01792 636147
E-bost: jeff.green@swansea.gov.uk

Mae **Sustrans** yn hyrwyddo teithio drwy ddulliau sy'n llesol i iechyd a'r amgylchedd.
Cyswllt: Helen Davies
Rhif ffôn: 01792 454492
E-bost: helen.davies@sustrans.org.uk
Ar y we: www.sustrans.org.uk

Gwybodaeth ac Adnoddau

Llwybrau Diogel i'r Ysgol – gwybodaeth, cefnogaeth ac adnoddau gan gynnwys cynlluniau teithio enghreifftiol, canllawiau i'r cwricwlwm a thaflenni ffeithiau.
www.saferoutestoschools.org.uk

Ymgyrch Cerdded i'r Ysgol – gwybodaeth a phrosiectau i annog rhieni, disgyblion ac athrawon i ystyried cerdded i'r ysgol.
www.walktoschool.org.uk

Clwb Swyddogion Diogelwch Ffyrdd Iau – cynllun cenedlaethol sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion gymryd peth cyfrifoldeb dros ddiogelwch ffyrdd yn ardal eu hysgol.
www.jrsocymru.org.uk

Y Draenogiaid – gwefan ryngweithiol a chwisiau, cystadlaethau a gemau i blant, sy'n gysylltiedig â'r ymgyrch diogelwch ffyrdd genedlaethol.
www.hedgehogs.gov.uk

Published by

Swansea Environmental Education Forum
Fforum Addysg yr Amgylchedd Abertawe

Gwastraff a Sbwriel

Safon Efydd

Rheolaeth yr Ysgol

- Gellir lleihau faint o bapur sy'n cael ei ddefnyddio drwy argraffu a llungopïo ar ddwy ochr ble bynnag y bo'n bosib a sicrhau bod disgyblion yn defnyddio dwy ochr o'r papur
- Ailgylchu'r holl bapur a chardbord
- Ailgylchu'r holl getris arlliw a chwistrell
- Ailgylchu'r holl ganiau gan gynnwys y rhai o gegin yr ysgol
- Ailgylchu'r holl fatris na ellir eu hailwefru
- O leiaf unwaith y flwyddyn, ceir gwasanaeth ar thema gwastraff gan y disgyblion neu siaradwr gwadd
- Cafwyd ymgyrch i gynyddu ymwybyddiaeth o broblemau sbwriel
- Prynwyd o leiaf pedwar cynnyrch wedi'i wneud o ddeunyddiau a ailgylchwyd
- Daw pobl â phecynnu a deunyddiau gwastraff eraill o gartref neu eu prynu o'r Ganolfan Adnoddau Chwarae ar gyfer eu defnyddio mewn gweithgareddau celf a chrefft

Gweithgareddau'r Cwricwlwm

- Mae disgyblion yn cael cyfle i wneud papur a ailgylchwyd
- Mae disgyblion yn defnyddio deunyddiau a arbedwyd ar gyfer celf jync
- Mae disgyblion yn ymchwilio i briodweddau deunyddiau pecynnu gwahanol gan ystyried pam gellir ailgylchu rhai ond nid popeth

Safon Arian

Rheolaeth yr Ysgol

- Cafwyd ymgyrch i annog disgyblion i ddod â chetris chwistrell ac arlliw o'u cartrefi
- Cafwyd ymgyrch i gynyddu ymwybyddiaeth i annog disgyblion i ailddefnyddio poteli plastig ar gyfer dŵr yfed
- Mae'r holl boteli plastig na chânt eu hailddefnyddio'n cael eu hailgylchu
- Cynhelir sesiynau casglu sbwriel ar diroedd yr ysgol ac ailgylchu'r deunyddiau a gasglwyd ble bynnag y bo'n bosib
- Anogir pecynnau bwyd dim gwastraff ar gyfer yr holl weithgareddau a thripiau y tu allan i'r ysgol
- Mae'r ysgol yn prynu deunyddiau ac offer sy'n cynnwys deunyddiau a arbedwyd neu a ailgylchwyd yn rheolaidd

Gweithgareddau'r Cwricwlwm

- Mae'r disgyblion yn cynnal archwiliad gwastraff ac yn defnyddio'r data fel rhan o'u hastudiaethau
- Mae'r disgyblion yn ymchwilio i'r hyn y gellir ei wneud o ddeunyddiau gwastraff a ailgylchwyd
- Mae disgyblion yn ymchwilio i fanteision prydau dim gwastraff

Safon Aur

Rheolaeth yr Ysgol

- Mae o leiaf pedwar deunydd ychwanegol yn cael ei wahanu neu ei gasglu i'w ailgylchu e.e. ffonau symudol, ffoil alwminiwm
- Mae'r ysgol yn cadw cofnod o faint o wastraff sy'n cael ei arbed rhag mynd i safle tirlenwi
- Mae ffrwythau a llysiau o byrbrydau'r disgyblion a bagiau te o'r ystafell staff yn cael eu compostio ar dir yr ysgol
- Os yw ffynhonnau dŵr neu oerwyr yn cael eu defnyddio yn yr ysgol, yna mae cwpanau y gellir eu hailddefnyddio'n cael eu darparu yn hytrach na rhai tafladwy
- Mae'r holl gynnyrch papur y mae'r ysgol yn ei brynu â thystysgrif FSC neu'n cynnwys o leiaf 75% o ddeunydd a ailgylchwyd
- Mae'r ysgol yn annog rhieni i ddefnyddio'r cynllun casglu ymyl y ffordd
- Mae'r mannau gwaethaf o ran sbwriel yn y gymuned wedi'u nodi ac mae cynllun gweithredu wedi'i lunio i helpu i wrthweithio'r broblem e.e. dylunio posteri i'w rhoi yn y siopau lleol

Gweithgareddau'r Cwricwlwm

- Mae'r disgyblion yn gwneud archwiliad ailgylchu gartref ac yn ymchwilio i faint y caiff y cynllun casglu ymyl y ffordd a'r safleoedd amwynderau dinesig eu defnyddio
- Mae'r disgyblion yn ymchwilio i sut y rheolir gwastraff ac ailgylchu mewn gwledydd eraill e.e. drwy waith prosiect gyda'u hysgolion cysylltiadau rhyngwladoll

Cyflwyniad

Tan yn ddiweddar, roedd y rhan fwyaf o'r gwastraff yn Abertawe'n mynd i safleoedd tirlenwi, ond o ganlyniad i dargedau uchelgeisiol gan Lywodraeth y Cynulliad, mae'r cyfraddau ailgylchu wedi codi'n sylweddol. Gall ysgolion gymryd rôl bwysig yn hyn o beth drwy leihau ac ailgylchu eu gwastraff eu hunain a chynyddu ymwybyddiaeth yn eu cymunedau.

Er bod y mwyafrif o ysgolion yn Abertawe'n rhan o gynlluniau ailgylchu erbyn hyn, mae sbwriel a lleihau'r gwastraff yn her sylweddol i lawer o hyd. Dylai'r holl ddisgyblion ddysgu am yr hierarchaeth wastraff, neu'r **Pum Egwyddor** (gweler isod), a dylai ysgolion ymdrechu i wneud mwy na gwahanu ac ailgylchu eu gwastraff eu hunain yn unig.

Mae monitro gwastraff a sbwriel yr ysgol yn cynnig cyfle i weithio mewn sawl maes o'r cwricwlwm gan gynnwys mathemateg, ABCh a daearyddiaeth, ac ar yr un pryd, mae ymchwilio i briodweddau gwahanol ddeunyddiau'n cyd-fynd yn dda â meysydd celf, technoleg a gwyddoniaeth.

Mae'r **Pum Egwyddor** yn gosod y drefn i leihau gwastraff - dylid ystyried y dewisiadau yn nhrefn y manteisio a ddaw yn eu sgîl.

Gwrthod prynu neu ddefnyddio eitemau sy'n ddiangen neu lle mae dewisiadau eraill gwell, mwy hir oes a llai niweidiol ar gael.

Defnyddio cyn lleied â phosib o unrhyw gynnyrch.

Ailddefnyddio cynnyrch a phecynnu lle bo hynny'n bosib.

Atgyweirio cyfarpar ac eitemau eraill ble bynnag y bo'n bosib.

Ailgylchu cymaint o ddeunyddiau â phosib os na ellir eu hailddefnyddio neu eu hatgyweirio.

Cynllun Ysgolion Cynaliadwy Abertawe

Gwastraff a Sbwriel

Cysylltiadau a Chefnogaeth

Mae **Uned Ailgylchu Adran yr Amgylchedd Dinas a Sir Abertawe'n** cynnig cyngor a chefnogaeth ar faterion gwastraff ac yn trefnu prosiectau i hyrwyddo ailgylchu mewn ysgolion.
Cyswllt: Trish Flint
Rhif ffôn: 01792 635600
E-bost: recycling@ swansea.gov.uk
Ar y we: www.swansea.gov.uk/recycling

Mae **Canolfan Adnoddau Chwarae Abertawe'n** cynnig deunyddiau glân nad oes mo'u hangen ar ddiwydiant ar gyfer eu defnyddio mewn chwarae creadigol, celf a chrefft.
Rhif ffôn: 01792 794884
E-bost: prc@playright.org.uk
Ar y we: www. playright.org.uk

Gwybodaeth ac Adnoddau

Craff am Wastraff Cymru – gwybodaeth am wastraff yng Nghymru gyda gwe-dudalen gweithgareddau i blant ac athrawon.
www.wasteawarenesswales.org.uk

Waste Watch – sefydliad aelodaeth sy'n cynnig adnoddau a hyfforddiant ar addysg gwastraffn.
www.wastewatch.org.uk

Recycle More – gwybodaeth a gweithgareddau ailgylchu i ddisgyblion.
www.recycle-more.co.uk

Cadwch Gymru'n Daclus – gwybodaeth am brosiectau sbwriel a glendid.
www.keepwalestidy.org

Published by

Swansea Environmental Education Forum
Fforum Addysg yr Amgylchedd Abertawe